Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Teitl: **Swyddog Gwasaneth Gwybodaeth i Deuluoedd**

Lleoliad: **Gweithio Ystwyth / Canolfan Plant Integredig Calon y Cymoedd, Blaenau, NP13 3BN**

Cyfarwyddiaeth: **Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyfeirnod: **BG01465**

Cyflog: **Gradd 6 (£28,900 – £32,909 y flwyddyn)**

Oriau: **37 awr**

Contract: **Parhaol**

Crynodeb o'r Swydd

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni, darpar rieni, gofalwyr, plant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol eraill ar unrhyw wasanaethau a all fod yn berthnasol i blant a theuluoedd ym Mlaenau Gwent. Mae'r rôl yn gofyn am ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy amrywiaeth o wahanol ddulliau.

Hysbyseb Lawn

Mae hwn yn gyfle gwych i weithiwr proffesiynol uchel ei gymhelliant sydd â phrofiad o ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i aelodau'r cyhoedd a/neu gydweithwyr proffesiynol i ymuno â'r Tîm Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae a chymryd cyfrifoldeb am ddarparu'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae'r Tîm Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yn y Gwasanaethau Plant ac yn darparu ystod eang o wybodaeth i rieni, gofalwyr, plant, pobl ifanc, a gweithwyr proffesiynol mewn meysydd gwasanaeth eraill.

Byddwch yn gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau, digwyddiadau ac adnoddau perthnasol ar gael yn rhwydd ac yn cael ei hyrwyddo pan fo hynny'n briodol. Byddwch yn rheoli gwybodaeth drwy gronfa ddata Dewis ac yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i hyrwyddo gwybodaeth i'r cyhoedd drwy Dewis, y cyfryngau cymdeithasol, y wefan, gwaith allgymorth a chyhoeddiadau defnyddiol. Bydd gennych brofiad o weithio'n uniongyrchol gydag aelodau'r cyhoedd a bydd gennych safonau gwasanaeth cwsmeriaid uchel iawn.

Mae'r rôl hon yn golygu mynd â'r gwasanaeth at y cyhoedd a gweithio/rhwydweithio gyda'r sector gofal plant a chwarae ac, fel y cyfryw, mae mynychu cyfarfodydd gyda'r nos a digwyddiadau ar benwythnosau yn rheolaidd yn rhan annatod o gyflwyno'r gwasanaeth.

Mae profiad a sgiliau hanfodol yn cynnwys y canlynol heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid eithriadol
- Sgiliau TG rhagorol gyda phrofiad o ddadansoddi data a darparu gwybodaeth reoli
- Dealltwriaeth/profiad da o'r sector gofal plant a chwarae a gwasanaethau cymorth i deuluoedd
- Profiad o weithio'n effeithiol ac mewn cydweithrediad ag ystod eang o bartneriaid mewnol ac allanol
- Y gallu i weithio ar gyflymder a newid tasgau wrth gynnal lefel uchel o broffesiynoldeb
- Bod yn arloesol wrth yrru gwasanaethau a phrosiectau yn eu blaenau
- Gallu gyrru a chael mynediad i'ch cerbyd eich hun

I gael rhagor o wybodaeth am y swydd hon, cysylltwch â Martine Redfern, Arweinydd Tîm y Strategaeth Gofal Plant, ar 01495 354755 neu martine.redfern@blaenau-gwent.gov.uk

Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.

Dyddiad Cau: **16/03/2023**

Dyddiad y Cyfweliad: **28/03/2023**